*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Cyflwyno'r Cynllun Gwella a Llesiant 2019/20 i'w gymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r drafft terfynol o Gynllun Gwella a Llesiant 2019/20 (Atodiad 1) i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2019.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL**

3. Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Panel Gweithredol ar 11 Chwefror 2019. Bu i'r aelodau argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo cyhoeddi'r Cynllun Gwella a Llesiant.

**ARGYMHELLIAD**

4. Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r drafft terfynol o Gynllun Gwella a Llesiant 2019/20 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2019.

**CEFNDIR**

5. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion gwella blynyddol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol 2009. Rhaid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'r amcanion yn ymwneud â hi.

6. Hefyd, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi amcanion llesiant tymor hir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi pa mor aml y mae'n rhaid i'r Awdurdod adolygu'r amcanion hyn heblaw am ddweud bod rhaid iddo eu hadolygu fel rhan o'i broses flynyddol o adrodd yn eu cylch.

7. Rhaid i'r Awdurdod hefyd gyhoeddi datganiad yn esbonio sut y bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a pham mae'r Awdurdod o'r farn ei fod wedi gosod amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r datganiad nodi'r camau mwy uniongyrchol y mae'r Awdurdod yn cynnig eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

8. Ar ôl mabwysiadu amcanion llesiant tymor hir, rhaid i'r Awdurdod gymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

9. Yn unol â'r cyngor a gafwyd, mae'r Awdurdod wedi cyfuno ei brosesau cynllunio gwelliannau a'i brosesau cynllunio llesiant, ac yn 2017/18 mae wedi gosod dau amcan tymor hir ac wedi cadw at y rheini ar gyfer 2018/19. Dyma'r amcanion hynny:

> A: Cefnogi pobl i atal damweiniau mewn cartrefi a bod yn ddiogel os yw'r tanau hynny yn digwydd; a
>
> B: Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

**GWYBODAETH**

10. Ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd yr Awdurdod y byddai Gweithgor Cynllunio, yn cynnwys aelodau o'r Panel Gweithredol, yn gwneud y gwaith manwl sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun yr ATA ar gyfer 2019/20.

11. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gan Weithgor Cynllunio'r Aelodau yn 2018, penderfynodd yr ATA ymgynghori'n gyhoeddus ynglŷn ag ariannu'r ATA yn 2019/20.

12. Ar ôl ystyried y dewisiadau ar gyfer sicrhau cyllideb fantoledig yn 2019/20, dywedodd yr Awdurdod nad oedd yn bwriadu ceisio cael arbedion mawr oherwydd ei fod o'r farn y byddai lefel y risg yn rhy uchel ar hyn o bryd. Nid oedd wedi diystyru'r posibilrwydd o wneud arbedion, ond nid fyddai maint yr arbedion hynny yn 2019/20 mor fawr ag, er enghraifft, gau gorsafoedd tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân.

13. Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y dulliau hyn ei gynnal rhwng Medi 2018 a Thachwedd 2018, a chafodd prif themâu'r ymatebion eu hystyried gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018.

14. Ar sail yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ac ni waeth beth yw penderfyniad yr Awdurdod am ei gyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2019/20, cytunodd yr Awdurdod i barhau i fynd ynglŷn â'r amcanion llesiant tymor hir sydd ganddo ar hyn o bryd.

15. Felly, mae'r drafft terfynol o Gynllun Gwella a Llesiant 2019-20 yn cynnwys y ddau amcan hwn ynghyd â'r camau mwy byrdymor o'u cyflawni. Gallai'r swyddogion wneud mân newidiadau i'r cynllun os oes angen, cyn ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

16. Felly, mae'r Awdurdod yn gallu cyhoeddi, ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, cyfres o amcanion sy'n amcanion gwella blynyddol ac yn gamau y mae'r Awdurdod yn cynnig eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol i'r gwaith o gytuno ar y camau tuag at amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae cysylltiad clir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2019/20 a lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Yn gymorth i gydymffurfio â deddfwriaeth llesiant a chynllunio gwelliannau. |
| Staffio | Ni wyddom am unrhyw effaith ar y lefelau staffio ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol wrth eu datblygu. |
| Risgiau | Yn lleihau'r risgiau o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith, ac o beidio â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |